Cafcass Cymru

# Yr Effaith ar Blant sy'n Profi Cam-drin Domestig



Cyhoeddwyd v1
(Mehefin 2019)

# Cynnwys

Profiad y Plentyn ........ 1
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a gwytnwch: risg a ffactorau amddiffynnol yng nghyswllt salwch meddwl hyd ddiwedd oes. ........ 3
Asesu Effaith ........ 6
Gwaith Uniongyrchol â Phlant ........ 9
Yn Fy Esgidiau I: Profiadau Pobl Ifanc o Gam-drin Domestig ........ 10
Yr Effaith ar y Gallu i Fagu Plant ........ 11
Gwytnwch ........ 12
Adnoddau Defnyddiol ........ 13
Cyfeiriadau ........ 14

## Profiad y Plentyn

Dylai profiad y plentyn fod yn greiddiol ym mhob adroddiad llys sy'n trafod materion yn gysylltiedig â chyswllt â'r plentyn. Mae deall natur gymhleth achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig yn helpu ymarferwyr i ganolbwyntio ar effaith bosibl hynny ar blant, a ddylai gael yr un ystyriaeth â'r dioddefwr. Wrth fyw gyda chamdriniaeth ddomestig a'r trawma y gall hynny ei achosi, bydd yr effaith ar blant yn amrywio.

Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn cyfeirio at yr amhariad a ddioddefir gan blant sy'n dod i gysylltiad â chamdriniaeth ddomestig neu'n llygad-dyst i hynny wrth ddiffinio niwed sylweddol, ond dengys ymchwil gan Callaghan (2015) fod plant nid yn unig yn profi camdriniaeth ddomestig fel llygad-dystion, ond hefyd fel dioddefwyr. Mae camdriniaeth ddomestig yn creu amgylchedd helbulus, straenllyd a niweidiol, a gall canlyniadau hirdymor y trawma hwnnw barhau ar ôl i'r plentyn droi'n oedolyn.

**Egwyddor Cyffredinol ynghylch Cam-drin Domestig yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 12J Trefniadau Cyswllt a Gorchmynion Cyswllt Plant: Cam-drin Domestig (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017)**
Mae cam-drin domestig yn niweidiol i blant ac/neu'n achosi risg o niwed i blant, p'un a ydynt yn derbyn camdriniaeth ddomestig eu hunain neu'n gweld un o'u rhieni'n bod yn dreisgar neu'n cam-drin y rhiant arall, neu os ydynt yn byw mewn cartref lle ceir camdriniaeth ddomestig (hyd y oed os nad yw'r plentyn yn ddigon hen i fod yn ymwybodol o'r ymddygiad). Gall plant ddioddef niwed corfforol, seicolegol ac/neu emosiynol uniongyrchol o fyw gyda chamdriniaeth ddomestig, a gallant hefyd ddioddef niwed yn anuniongyrchol os bydd y gamdriniaeth ddomestig yn amharu ar allu'r naill riant neu'r llall, neu'r ddau riant, i fagu eu plant.

**Bydd ymatebion plant i'r profiad o fyw gyda chamdriniaeth ddomestig yn amrywio yn ôl oedran a'u cyfnod datblygu.**

- Gall yr effaith ar blant fod amrywio. Er enghraifft, ymddengys fod babanod sydd yn byw gyda thrais domestig yn dioddef lefelau uwch o salwch, arferion cysgu gwaelach a chrio gormodol, ynghyd â tharfu ar batrymau ymlyniad.
- Plant oedran cyn-ysgol yw'r grŵp oedran lle gwelir y mwyaf o darfu ar eu hymddygiad, e.e. gwlychu'r gwely, tarfu ar gwsg ac anawsterau bwyta, ac maent yn arbennig o debygol o'u beio eu hunain am y trais sy'n digwydd rhwng yr oedolion.
- Mae plant hŷn yn fwy tebygol o ddangos effeithiau'r aflonyddwch yn eu bywydau drwy dangyflawni yn yr ysgol, drwy fethu datblygu rhwydweithiau cymdeithasol da, drwy hunan-niweidio, drwy redeg i ffwrdd a thrwy ymddwyn yn wrthgymdeithasol. (*Humphreys a Houghton, 2008*)

Mae'n bwysig nodi y gallai plant a chanddynt frodyr neu chwiorydd ymadweithio ac ymateb yn wahanol. Yn ogystal â hyn, dylid ystyried natur unigryw y plentyn ei hun, ynghyd ag unrhyw anghenion unigol sydd gan unrhyw blant o fewn grŵp o siblingiaid.


Mae ymchwilwyr wedi dechrau canolbwyntio ar y modd y mae dod i gysylltiad â thrais domestig yn effeithio ar ddatblygiad ymenyddol plant. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod plant ifanc sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig yn sgorio'n is mewn mesuriadau gwybyddol, hyd yn oed o gymryd i ystyriaeth IQ y fam, pwysau'r plentyn wrth eni, cymhlethdodau geni, ansawdd y symbyliad deallusol gartref a'r rhywedd.


Gall dod i gysylltiad â chamdriniaeth ddomestig, yn enwedig yn nwy flynedd gyntaf bywyd, fod yn arbennig o niweidiol. (*Enlow et al, 2012*)
Er bod gan blant allu cynhenid i ymateb i sefyllfaoedd straenllyd, fel teimlo'n llwglyd, cwrdd â phobl newydd neu ymdrin â phrofiadau newydd, mae'n glir bod rhai mathau o straen yn fwy niweidiol nag eraill. Os bydd system rheoli straen plentyn unigol yn cael ei hysgogi'n gryf a thros gyfnod hir, bydd hynny'n arwain at straen gwenwynig.

**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a gwytnwch: risg a ffactorau amddiffynnol yng nghyswllt salwch meddwl hyd ddiwedd oes.**
*Dyfynnwyd o [Astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs) a Gwytnwch yng Nghymru]*

Gwytnwch yw'r gallu i oresgyn caledi difrifol. Mae'r ffactorau sy'n cefnogi gwytnwch yn cynnwys sgiliau personol, perthnasoedd cadarnhaol, cymorth cymunedol a chysylltiadau diwylliannol.


Yn Arolwg ACEs a Gwytnwch Cymru, holwyd oddeutu 2500 o oedolion (18-69 oed) am ystod o'r adnoddau gwytnwch hynny fel plant ac oedolion, eu cysylltiad ag 11 o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'u hiechyd corfforol a meddyliol.






**Adroddodd 1 o bob 3 oedolyn eu bod wedi derbyn triniaeth salwch meddwl ar ryw bryd**

**Roedd ACEs yn cynyddu'r risgiau o salwch meddwl i raddau sylweddol.**




Mewn sefyllfaoedd lle bydd lefelau straen plant yn uchel, fel sefyllfaoedd lle ceir camdriniaeth ddomestig, bydd hormonau straen cyson uchel a lefelau uwch o gemegau allweddol yn yr ymennydd yn creu cyflwr ffisiolegol mewnol sy'n tarfu ar strwythur yr ymennydd sy'n datblygu, a gall achosi anawsterau wrth ddysgu, wrth gofio ac wrth hunanreoleiddio. O ganlyniad i hyn, gall plant sy'n profi straen gwenwynig ym mlynyddoedd cynnar eu plentyndod ddatblygu i fod yn fwy agored i salwch corfforol sy'n gysylltiedig â straen yn ystod eu hoes (fel clefyd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed uchel a diabetes) yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl (fel iselder, anhwylderau gorbryder a chamddefnydd o sylweddau) *(Y Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol ar y Plentyn sy'n Datblygu, 2007)*. Maent hefyd yn fwy tebygol o arddangos ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd, fel smygu a ffyrdd o fyw a gysylltir ag oedolion, fel cymryd cyffuriau, sy'n tanseilio eu lles ac wedyn yn arwain at farwolaeth gynharach*(Brown et al 2009)*.

**Pwynt Allweddol:**

Nid yw plant sy'n byw gyda chamdriniaeth ddomestig yn 'arfer â hynny' ac nid yw'r effaith arnynt yn llai difrifol dros amser. Hyd yr amlygiad i gamdriniaeth sy'n gallu achosi'r niwed mwyaf. *(English 2003 yn Stanley 2011)*

**Nodyn Ynghylch Rhywedd:**

Ar ôl gweld trais rhwng rhieni yn y blynyddoedd cyn ysgol, roedd bechgyn yn tueddu i allanoli eu problemau yn 16 oed; roedd merched yn tueddu i fewnoli problemau yn 16 oed.  Mae profi camdriniaeth ddomestig ym mlynyddoedd cynnar plentyndod yn gadael ei ôl ar blentyn, a daw hyn yn amlwg yn y glasoed, yn enwedig ymhlith bechgyn.

Wrth ragweld problemau ymddygiad, i'r gwrthwyneb, gwelwyd mai'r rhagfynegydd cryfaf oedd awyrgylch o drais, anhrefn ac aflonyddwch yn y cartref, efallai'n enwedig yn y blynyddoedd cynnar.
*(Stroufe et al 2005)*



Mae'n bwysig deall sut mae'r plentyn wedi canfod a mewnoli ei brofiadau, a pheidio priodoli niwed i natur y gamdriniaeth yn unig. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd camdriniaeth rhwng cwpl yn gysylltiedig â sefyllfa neu a ysgogir gan wahanu wedi digwydd yn aml iawn, ond y bydd hynny wedi achosi trawma sylweddol. Mae'n debygol mai byw gyda rheolaeth drwy orfodaeth fydd yn achosi'r effeithiau dyfnaf a hiraf yn sgil camdriniaeth ddomestig, ond mae'n bosibl y bydd gweld digwyddiad neu amryw o ddigwyddiadau dychrynllyd dros amser hefyd yn cael cryn effaith.

## Profiadau Plant o Reolaeth drwy Orfodaeth

Pan fydd plant yn eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd lle ceir rheolaeth, bydd hynny'n effeithio arnynt. Bydd y gamdriniaeth seicolegol a'r ymdeimlad o ofn cyson sy'n gysylltiedig â rheolaeth drwy orfodaeth yn nodwedd reolaidd yn eu bywydau, a byddant yn cymryd camau creadigol ac ymwybodol i reoli eu profiadau a defnyddio strategaethau sy'n gweithio iddynt hwy er mwyn sicrhau cyn lleied o niwed ag sy'n bosibl. Mae'n bwysig nodi y gall rheolaeth drwy orfodaeth ac ymddygiad sy'n rheoli barhau a dod i'r amlwg hefyd ar ôl gwahanu. Mae angen cydnabod y gall cyflawnwyr, weithiau, ddefnyddio'r llys teulu fel estyniad i'r rheolaeth drwy orfodaeth a'r ymddygiad sy'n rheoli. Mae olwyn 'Ôl-Wahanu' Model Duluth[1], yn dangos sut y gellir defnyddio rheolaeth drwy orfodaeth ac ymddygiad sy'n rheoli ar ôl gwahanu.


### Pwynt Ymarfer[2]

Yn aml, gellir defnyddio cyswllt â phlentyn i reoli'r oedolyn sy'n dioddef ymhellach, felly mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn deall bwriadau cyflawnwyr drwy gydol y broses. Mae Thiara a Gill (2012) yn amlygu sut y gellir cychwyn achos cyswllt fel dull o barhau i reoli'r teulu. Mewn un enghraifft gan Callaghan et al (2015), byddai'r cyflawnwr bob amser yn newid dyddiadau cyswllt i gyd-daro â dyddiau lle'r oedd y plant i fod i ymweld ag aelodau o'r teulu estynedig. Er enghraifft, byddai'r cyflawnwr yn dewis dydd Sul fel diwrnod cyswllt, gan mai dyna fyddai'r diwrnod yr oedd y plant i fod i weld eu nain ar ochr y fam. Dywedodd y ferch mai bwriad y cyflawnwr oedd tarfu ar gyswllt â'i theulu ehangach ac achosi anghyfleustra i'r rhiant nad oedd yn cam-drin. Disgrifiodd y newidiadau ffurfiol ac anffurfiol mynych i'r trefniadau cyswllt fel sefyllfa lle'r oedd y cyflawnwr yn 'creu trafferth i mam'. Nid oedd gan y rhiant nad oedd yn cam-drin 'unrhyw ddewis' oherwydd byddai'r cyflawnwr yn mynd yn ôl i'r llys pe bai'n anghytuno. Mae'r math hwn o ymddygiad yn atal plant rhag gallu cynnal perthnasoedd pwysig eraill hefyd. Mae Coy et al (2012) yn dadlau y dylai llysoedd ganfod beth yw bwriad y rhiant sy'n ceisio cyswllt ac ystyried a yw'n gwneud hynny er mwy parhau â phatrwm o reolaeth drwy orfodaeth.

[1] https://www.theduluthmodel.org/wp-content/uploads/2017/03/Using-Children-Wheel.pdf
[2] McLeod, D (2018), Coercive control: Impacts on children and young people in the family environment, Research in Practice SafeLives commissioned literature review pp.35

Post Separation Power and Control Wheel

Model Duluth: Olwyn Grym a Rheolaeth ar ôl Gwahanu (Saesneg un unig)
https://www.theduluthmodel.org/wp-content/uploads/2017/03/Using-Children-Wheel.pdf




Ymhell o fod yn llygad-dystion goddefol, nid 'dod i gysylltiad' â thrais a chamdriniaeth y maen nhw wedi'i wneud ond, yn hytrach, byw gyda hynny a'i brofi'n uniongyrchol yn union fel y mae oedolion. Yn ogystal â hynny, maent yn ymateb i drais a rheolaeth drwy orfodaeth fel gweithredwyr creadigol, sy'n gallu addasu a newid i gyd-fynd â'u profiadau niweidiol a'u rheoli. Mae plant sydd wedi profi rheolaeth drwy orfodaeth yn debygol o brofi effeithiau tebyg fel dioddefwyr ar ôl iddynt dyfu'n oedolion. Mae eu cyfleoedd i ddewis, i deimlo'n rhydd ac i feithrin ymdeimlad o annibyniaeth a chymhwysedd yn debygol o fod yn gyfyngedig *(Katz, 2016).* Ceir tystiolaeth allweddol yn ogystal â'r hyn a amlinellwyd gan Katz (ibid) fod ymddygiad sy'n rheoli yn torri plant i ffwrdd o'r adnoddau allanol a allai eu helpu i feithrin gwytnwch.

Cyflwynodd Callaghan et al (2015) yr effeithiau a ddisgrifiwyd gan y plant y buont yn cyfweld â hwy, a oedd yn cynnwys defnydd cyfyngedig o le o fewn y cartref a chyfyngu ar

hunanfynegiant.  Yr hyn a oedd yn diffinio profiad plant o reolaeth drwy orfodaeth oedd cyfyngu ar eu hymddygiad eu hunain, gan ddysgu i reoli'r hyn oeddent yn ei ddweud a'i wneud 'i'w hatal rhag bod yn rhy weladwy, yn rhy swnllyd, yn rhy amlwg' i'w hamddiffyn ei hunain rhag y cyflawnwr.

Mae cyfyngu ar eu hymddygiad yn strategaeth ymdopi amlwg a ddefnyddir gan lawer o blant fel ffordd o'u gwneud eu hunain yn ddiogel.  Mae hi felly'n bwysig sylwi ar yr orwyliadwraeth hon fel effaith glir rheolaeth drwy orfodaeth yn y cartref.  Mae'n bwysig hefyd i weithwyr proffesiynol ystyried sut y gallai'r duedd i fod yn orwyliadwrus ac i gyfyngu ar yr hunan effeithio ar les plentyn.

**Nodyn Ymarfer: dyfynnwyd o D McLeod *Coercive Control: Impacts On Children And Young People In The Family Environment*** [3]

Nodwedd gyffredin ym mhrofiad plant o reolaeth drwy orfodaeth o fewn y teulu yw eu profiad o gael eu defnyddio fel arf gan y cyflawnwr. Fel yr esboniodd Bancroft a Silverman (2002) yn eu hastudiaeth, gall ymddygiad sy'n ymddangos yn gadarnhaol gan y cyflawnwr hyd yn oed ddeillio mewn gwirionedd o safbwynt y cyflawnwr o'r plentyn fel 'gwobr' neu offeryn i reoli'r dioddefwr. Mae hi felly'n ddealladwy yn y cyd-destun hwn y bydd plant yn cael eu defnyddio fel arf. Canfu Callaghan et al (2015) enghreifftiau o bartneriaid a oedd yn cam-drin a oedd yn ceisio cynnwys plant wrth niweidio'r oedolyn a oedd yn dioddef, naill ai'n emosiynol neu'n gorfforol, neu'n annog plant i adrodd yn ôl am y rhiant nad oedd yn cam-drin.  Mae Thiara a Gill (2012) hefyd yn adrodd am enghreifftiau lle byddai cyflawnwyr yn annog plant i daro eu mam.

Dywedodd un plentyn, a gafodd ei annog i ddweud celwydd ynghylch ffrae er mwyn tanseilio'r  rhiant nad oedd yn cam-drin, fod hynny wedi newid ei safbwynt ynghylch y cyflawnwr, o'i ystyried yn 'ddyn ffeind' i'w ystyried yn 'berson drwg iawn'. (Callagan et al, 2015). Mae hyn yn dangos pa mor ymwybodol yw plant o sefyllfaoedd lle byddant yn cael eu defnyddio fel arf i reoli eu rhiant nad yw'n cam-drin ymhellach. Mewn enghraifft ar wahân, disgrifiodd un bachgen y modd y byddai'r cyflawnwr yn defnyddio gwybodaeth a rannwyd ganddo ef i reoli'r dioddefwr. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am bwy yr oedd y dioddefwr wedi siarad â nhw, neu ymhle yr oedd wedi bod.



[3] McLeod, D (2018), Coercive control: Impacts on children and young people in the family environment, Research in Practice SafeLives commissioned literature review pp.27

## Gwaith Uniongyrchol â Phlant

Yn aml, gall effeithiau byw gyda chamdriniaeth ddomestig fod yn fwy cymhleth na'r materion y gall ymarferwyr eu gweld ar yr wyneb neu y gall plant eu mynegi.  Wrth gyfweld â phlentyn am ei brofiadau, mae'n bwysig ei helpu a'i annog drwy ei atebion, yn hytrach nag arwain yr ymatebion hynny.  Gall technoleg fel apiau ffôn clyfar neu lechen fod yn ddefnyddiol i feithrin perthynas â'r plentyn, a gellir defnyddio taflenni gwaith a lluniau i'w lliwio gyda phlant o bob oed i'w helpu i ymlacio.

Ni ellir ond datgelu hyn a hyn drwy ofyn cwestiynau, ond gall y cwestiynau cywir wneud i blant deimlo'n gyffyrddus yn siarad am eu profiadau a galluogi'r ymarferydd i ddeall eu safbwynt.  Gallai'r cwestiynau gynnwys:

- Pwy sydd yn dy deulu?
- Pwy wyt ti leiaf agos ato fo?
- Pwy sy'n gwneud i ti deimlo'n ddiogel yn dy deulu?
- Oes yna rai pethau'n digwydd yn dy deulu sydd yn dy ddychryn di?
- Beth fyddi di'n gwneud pan fydd pethau dychrynllyd yn digwydd?
- Beth wyt ti'n meddwl sydd angen newid i wneud pethau'n well adref?
- Sut wyt ti'n meddwl y gelli di newid pethau?
- Beth y gall pobl eraill ei wneud er mwyn newid pethau?

Gall dyfyniadau uniongyrchol gan y plentyn fod yn bwerus wrth lunio adroddiad a chyflwyno argymhelliad i'r llys.  Dylai ymarferwyr hefyd ystyried sut y dylid cefnogi'r plentyn ar ôl cwblhau'r cyfweliad.

*Bydden i bob amser yn oedi cyn dweud unrhyw beth....hyd yn oed pe bawn i'n dweud "Helo", bydden i wastad yn meddwl cyn gwneud hynny, yn meddwl ydi o'n mynd i fy nghau i allan? Ydi o'n mynd i ymateb yn gyfeillgar, neu fod yn flin neu rywbeth fel 'na? Bydden i wastad yn meddwl ymlaen cyn dweud dim.*

*Dyfyniad y plentyn (Callaghan et al. 2015)*

**[Awgrymiadau ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig – Saesneg un unig (https://www.cafcass.gov.uk/download/10917/)](https://www.cafcass.gov.uk/download/10917/)**



**Yn Fy Esgidiau I: Profiadau Pobl Ifanc o Gam-drin Domestig**

Dyma ddyfyniadau gan blant ynglŷn â'u profiadau o gamdriniaeth ddomestig. Hoffem ddiolch i Cymorth i Ferched Cymru am rannu'r rhain â ni.

*"Roeddwn i'n teimlo'n flin, yn rhwystredig, ac wedi fy nghynhyrfu a phob tro yr oeddwn i'n dod adref roeddwn i'n arfer aros yn fy ystafell, a phryd bynnag y byddai mam yn gweiddi arna i bydden i'n ei brifo hi yn ofnadwy." (Goroeswr, 11)*

*"[cyn dod i'r grŵp] roeddwn i'n llawer mwy gofidus a phryderus am fy iechyd meddwl a'm lles, ond [erbyn hyn] dydi'r problemau sydd gen i ddim yn fy mhoeni i gymaint, waeth pa mor ddrwg yr ydynt." (Goroeswr, 12)*

*"Mae perthnasoedd wedi gwella - popeth wedi gwella - achos rwy'n teimlo bod pobl yn gwrando ar yr hyn sydd wedi digwydd gyda Dad." (Goroeswr, 10)*

*"[Mae fy mherthynas â mam] yn llawer gwell, am eu bod nhw [y Gwasanaethau Cymdeithasol] wedi gwrando a'n helpu ni." (Goroeswr, 11)*

Cymerwyd y dyfyniadau canlynol gan blant o waith Dr Emma Katz *Surviving Together: Domestic Violence and Mother-Child Relationships (2015)*[4].

*'Pan fyddai Mam yn rhoi sylw i mi, byddai o'n dweud wrthi am fynd draw ato fo, felly byddai'n rhaid iddi fy ngadael i chwarae ar fy mhen fy hun.' (Shannon, 10 oed)*

*John (20 oed): '...Byddai o'n diffodd y trydan, achos yn y cyntedd mae gennym ni hen focs trydan lle gallwch chi dynnu pethau allan, a dyna ni - dim pŵer....'*

*'Weithiau, byddai e allan o'r tŷ, a bydden i a Mam yn gwylio ffilm a threulio ychydig o amser gyda'n gilydd [fydden ni ddim yn cael gwneud hynny pan fyddai e adre]. Roeddwn i'n arfer helpu i goginio te gyda mam am fy mod i'n hoffi coginio, felly bydden ni'n rhyw fath o helpu'n gilydd.'*

*'Pan fyddai'n gwylltio ac yn mynd allan i'r dafarn bydden i'n cysuro Mam ac yn rhoi cwtsh iddi hi, a byddai hi'n rhoi cwtsh i mi hefyd.' (Shannon, 10 oed)*

*'Pan oedden ni wedi'n cloi yn y tŷ, â Mam wedi cynhyrfu, bydden i'n rhoi cwtsh iddi ac yn dweud y byddai popeth yn iawn.' (Roxie, 11 oed)*

---

[4] http://eprints.nottingham.ac.uk/28456/1/FINAL%20Katz%20Thesis%2010.02.2015.pdf

# Yr Effaith ar y Gallu i Fagu Plant

Gall cyflawnwyr danseilio gallu dioddefwyr i fod yn rhiant, gan wneud iddynt deimlo nad ydynt yn rhiant digon da. Yn ôl Lapeirre (2010) 'mae ymosodiadau dynion ar allu'r fam a pherthnasoedd rhwng mam a phlentyn yn greiddiol i'w hymgyrch i reoli a gormesu'. Mae'r ymddygiad hwn yn rhan annatod o reolaeth drwy orfodaeth ac yn ddangosydd risg a chamdriniaeth, yn enwedig os oes tystiolaeth bod y plentyn yn elyniaethus tuag at y rhiant sy'n dioddef (y fam fel arfer). Mae Radford a Hester (2006) yn esbonio y gall menywod sy'n profi camdriniaeth ddomestig golli hyder yn eu gallu a'u capasiti i fod yn rhiant, gan eu gadael yn teimlo nad oes ganddynt ryw lawer ar ôl i'w roi fel rhiant.

Gall plant gael eu cynnwys yn uniongyrchol mewn gweithgarwch rheoli, hy tanseilio rôl y rhiant nad yw'n cam-drin fel rhiant. Mae'r rhain yn cynnwys ynysu, blacmelio, gweithgarwch monitro, stelcian, a gall rhai sy'n cam-drin hefyd eu defnyddio mewn ffyrdd eraill i leihau a chyfiawnhau ymddygiad treisgar.
*(Johnson 2009, Stark 2007)*

Mae Radford et al (2011) yn ychwanegu bod cyflawnwyr yn aml yn ceisio difrodi'r parch sydd gan blant at eu rhiant (y fam fel arfer), yn atal y rhiant (y fam fel arfer) rhag gallu darparu rwtîn cyson i'w plant, ac yn ceisio troi'r plant yn ei herbyn. Mae cyfyngu ar amser magu hefyd yn dacteg cyffredin sy'n atal ymlyniad ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu'n naturiol.

Bydd dioddefwyr yn aml yn ceisio gweithredu fel y rhiant amddiffynnol drwy geisio cyfyngu ar ddifrod i'r plentyn. Byddant fel arfer yn gwneud hynny mewn dwy ffordd:

1. Amddiffyn yn weithredol er mwyn atal eu partner rhag ymosod yn gorfforol ar eu plant.
2. Amddiffyn drwy gymryd rhan mewn proses barhaus i greu amgylchedd sy'n rhydd rhag trais, a chreu rhyw fath o sefydlogrwydd a normalrwydd i'w plant, yn aml drwy gadw heddwch â'r cyflawnwr er mwyn atal ymosodiad.



# Gwytnwch

Wrth ddadansoddi sefyllfa unigryw'r plentyn a'i gyfres o amgylchiadau, dylid cynnwys potensial y plentyn hwnnw am wytnwch. Mae'n bwysig taro cydbwysedd rhwng niwed a ffactorau amddiffynnol a gwrthbwyso cryfderau yn erbyn y gofid sy'n cael ei brofi. Esboniodd Katz (2016)[5] y gall plant ganfod ffyrdd i fyw bywyd mor normal ag sy'n bosibl. Mae hynny'n cynnwys canfod strategaethau i gynnal a gwarchod y berthynas 'mam-plentyn'.

Fel arfer cyfeirir at risg, bregusrwydd a ffactorau amddiffynnol wrth drafod gwytnwch. Yr ymadwaith cymhleth rhwng y ffactorau hyn sydd dros amser yn pennu deilliannau plant. Mae Devaney (2015) yn gwahaniaethu rhwng dau fodel 'ymdopi' a ddefnyddir gan blant yng nghyd-destun camdriniaeth ddomestig:


| ‣ *Ymdopi â ffocws ar emosiynau* | ‣ *Ymdopi â ffocws ar broblemau* |
|---|---|
| Rheoli a lleihau straen, ee pan fydd plentyn yn cilio o episodau o drais ac yn tynnu ei sylw oddi ar hynny drwy wrando ar gerddoriaeth neu chwarae â theganau. | Newid y sefyllfa broblematig - er enghraifft, drwy geisio ymyrryd yn gorfforol, drwy dynnu sylw'r rhiant treisgar neu drwy alw am gymorth. |

Nododd Masten et al (1990) dri math o wytnwch mewn plant:

1. Plant nad ydynt yn ildio i'w gofidion, er gwaethaf eu statws risg uchel, er enghraifft plant â phwysau isel wrth gael eu geni.
2. Plant sy'n datblygu strategaethau ymdopi mewn sefyllfaoedd lle ceir straen cronig, er enghraifft plant rhieni sy'n defnyddio cyffuriau neu sy'n gaeth i alcohol.
3. Plant sydd wedi dioddef trawma difrifol, er enghraifft drwy drychinebau, drwy golli perthynas agos yn sydyn, drwy gamdriniaeth ac sydd wedi gwella a ffynnu ar ôl hynny.

Plant gwydn, felly yw'r rhai sy'n gwrthsefyll gofidiau, sy'n llwyddo i ymdopi ag ansicrwydd ac sy'n llwyddo i wella ar ôl trawma.

Gall dod i gysylltiad â chamdriniaeth ddomestig gael effaith barhaol ar blant a phobl ifanc. Ni fydd yr effaith ar bob unigolyn ifanc yr un peth; bydd rhai plant yn wydn, yn gallu gwella a mynd rhagddynt i ffynnu. Gall ffactorau risg ac amddiffynnol amrywiol o fewn y plentyn, y teulu a'r gymuned effeithio ar y modd y bydd plant a phobl ifanc yn prosesu ac yn deall eu profiad o gamdriniaeth. (*Edelson 2004*)




[5] Katz E (2016) 'Beyond the physical incident model: How children living with domestic violence are harmed by and resist regimes of coercive control'. *Child Abuse Review* 25 (1) 46-59.

## Adnoddau Defnyddiol

| Teitl | Ffynhonnell | Dolen |
|---|---|---|
| Impact Of Domestic Abuse On Children By Developmental Level (pdf) | CAADA Family Intervention Projects' (FIPS') Training Programme ©CAADA 2009 | https://www.cheshirewestandchester.gov.uk/documents/crime-prevention-and-emergencies/domestic-abuse/resources/child-safety-resources/impact-of-domestic-abuse-on-children-by-developmental-level.pdf |
| Cedar Network (Children Experience Domestic Abuse Recovery) | - | www.cedarnetwork.org.uk |
| Behind Closed Doors: The Impact of Domestic Violence on Children (pdf) | Unicef | https://www.unicef.org/protection/files/BehindClosedDoors.pdf |
| UK says no more: Effects of domestic abuse on children | - | https://uksaysnomore.org/effects-of-domestic-abuse-on-children/ |
| Welsh Adverse Childhood Experience (ACE) and Resilience Study: Sources of resilience and their moderating relationships with harms from adverse childhood experiences (Report 1 Mental Illness) | Public Health Wales | https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A24670954/document/versions/published |
| Coercive control: Impacts on children and young people in the family environment | Research In Practice | https://www.rip.org.uk/resources/publications/research-reviews-and-summaries/coercive-control-impacts-on-children-and-young-people-in-the-family-environment-literature-review-2018/ |

## Cyfeiriadau


Enlow, M. B., England, B., Blood, E. A., Wright, R. O. and Wright, R. J. (2012), Interpersonal trauma exposure and cognitive development in children to age 8 years: a longitudinal study', *Journal of Epidemiology and Community Health*, vol. 66, pp. 1005 – 1010

Brown, D. W., Anda, R. F., Tiemeier, H., Feletti, V. J., Edwards, V. J., Croft, J. B., Giles, W. H. (2009), 'Adverse childhood experiences and the risk of premature mortality', *American Journal of Preventative Medicine,* vol. 37, no. 5, pp. 389 – 396

Harne, L *Violent Fathering and the Risks to Children* (Policy Press, 2011)

Holt, S 'A Voice or a Choice? Children's Views on Participating in Decisions about Post-Separation Contact with Domestically Abusive Fathers', *Journal of Social Welfare and Family Law*, vol 40, no 4, pp. 459-476.

Humphreys, C. and Houghton, C. (2008), *Literature Review: Better outcomes for children and young people exposed to domestic abuse – directions for good practice*, Edinburgh: Scottish Government

Katz, E. (2015) 'Recovery – Promoters: Ways that Mothers and Children Support One Another's Recoveries from Domestic Violence', *British Journal of Social Work*, vol. 45, sup. 1, pp i153 – i169

Callaghan J, Alexander J, Sixsmith J and Fellin L (2015) 'Beyond "witnessing": Children's experiences of coercive control in domestic violence and abuse'. Journal of Interpersonal Violence. Cyhoeddwyd ar-lein ar 10 Rhagfyr: https://doi. org/10.1177/0886260515618946

Sroufe, Egeland, Carlson and Collins (2005), *The Development of the Person. The Minnesota Study of Risk and Adaptation from Birth to Adulthood*. Guilford Press: New York

Johnson, M. P. and Leone, J. M. (2005), The differential effects of intimate terrorism and situational couple violence: Findings from the National Violence Against Women Survey. *Journal of Family Issues*, vol. 26, pp. 322 – 349

Radford, L. et al (2011), Child abuse and neglect in the UK today. NSPCC

*Katz. E (2016). Beyond the physical incident model: How children living with domestic violence are harmed by and resist regimes of coercive control.* Child Abuse Review, 25, 46-59.

McLeod, D (2018), Coercive control: Impacts on children and young people in the family environment, Research in Practice SafeLives commissioned literature review.



***© Crown copyright 2019 - WG37461 - Digital ISBN 978-1-83876-984-0***

***This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.***